O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2017 Rhif 919 (Cy. 226)**

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36A Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym* | *17 Medi 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Medi 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36A Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn adferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 17 Medi 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw ffordd gyswllt yr A55 Caer i Fangor o'i chyffordd â Chylchfan Brychdyn yr A5104 i Gylchfan Brychdyn wrth Gyffordd 36A a chan gynnwys y gylchfan honno, a'r ffordd gangen rhwng Cylchfan Cyffordd 36A a Pharc Manwerthu Brychdyn, Brychdyn yn Sir y Fflint.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Medi 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru